## ysgol ardudwy

# Polisi Gwaith Cartref

Dyddiad Mabwysiadu : 24/10/18 Dyddiad Adolygu : 23/10/2021

| | |
|---|---|
| **Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** *Annwen Hughes* | |
| **Dyddiad: 24/10/2018** | |
| **Llofnod y Pennaeth:** *H A Williams* | |
| **Dyddiad: 24/10/2018** | |

Ysgol ardudwy

# POLISI GWAITH CARTREF

1. **Cefndir:**

   Ystyrir gwaith cartref yn rhan annatod ac yn ymestyniad naturiol o waith dosbarth disgyblion yn yr ysgol. Mae defnydd o waith cartref yn gyfle i adrannau sicrhau darpariaeth sy`n rhoi cyfle i ddisgyblion feistroli sgiliau sy`n caniatáu iddynt ddatblygu`n ddysgwyr annibynnol. Mae gwaith cartref hefyd yn gyfle i ddisgyblion gwblhau, ymestyn, adolygu a chadarnhau y gwaith a wneir yn y dosbarth. Ystyrir ei bod hi`n bwysig i ddisgyblion feddwl am waith cartref fel rhan hollol sylfaenol o`r gwaith ysgol. Yn yr un modd, teimlir fod cefnogaeth rhieni i drefniadaeth gwaith cartref yn anhepgor.

   Gan gofio`r pwysau ar gwricwlwm yr ysgol, ystyrir hefyd fod rhaid gosod tasgau gwaith cartref er mwyn ymestyn disgyblion i`r eithaf o fewn cyfyngiadau cyswllt amser pynciol cwricwlaidd.

2. **Nod:**

   Y nod ar y naill law yw cynnal trefniadaeth i sicrhau fod gwaith cartref addas a chyson yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a bod y gwaith hwnnw yn cael ei gwblhau yn brydlon i safon foddhaol. Y nod ar y llaw arall yw sicrhau fod disgyblion yn ystyried gwaith cartref fel elfen bwysig o`u gwaith ysgol a cheisio sicrhau fod rhieni a disgyblion fel ei gilydd yn arddel agwedd gadarnhaol at y gwaith ac yn ymwybodol o natur, safon a hyd y tasgau y disgwylir i`w plant eu cwblhau. Bydd y gwaith a osodir bob amser yn berthnasol i'r hyn sydd yn cael ei ddysgu yn y gwersi.

3. **Amcanion:**

   Amcenir i

   - ddarparu amrywiaeth o waith cartref cytbwys i bob disgybl, sydd yn cefnogi a chyfoethogi y gwaith dosbarth.
   - ddarparu gwaith cartref sy`n cynnwys tasgau byrion ac ymestynnol sy`n hybu annibyniaeth, er enghraifft, ddatblygu sgiliau ymarferol, ymchwil, chwilota, datrys problemau a darllen ymestynnol.
   - sicrhau fod pob disgybl yn cadw trefn ddigonol ar ei waith ac yn cwblhau gwaith cartref yn brydlon a boddhaol.
   - sicrhau fod rhieni yn ymwybodol o`r nifer, hyd ac amrywiaeth o dasgau y disgwylir i`w plant eu cyflawni.
   - gynnal cefnogaeth rhieni er sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei gwblhau`n foddhaol,
   - sicrhau fod rhieni yn derbyn gwybodaeth ddigonol i`w galluogi i gefnogi ac estyn cymorth i`w plant yn ôl yr angen, gan gynnwys sicrhau fod y tasgau yn ddwyieithog.

4. **Dulliau Gweithredu:**

- **Llyfr cofnodi gwaith cartref:** Bydd pob disgybl yn derbyn llyfr gwaith cartref ar ddechrau blwyddyn. Ynddo, bydd disgwyl i`r disgyblion gofnodi pob gwaith cartref a osodir iddynt. Disgwylir i rieni disgyblion blwyddyn 7, 8, 9, 10 ac 11 wirio a llofnodi`r llyfryn hwn yn wythnosol. Bydd tiwtoriaid dosbarth yn bwrw golwg ac yn llofnodi`r llyfrau gwaith cartref yn wythnosol er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu defnyddio i`r eithaf. Bydd y Penaethiaid Blwyddyn a`r Tîm Rheoli hefyd yn gwirio`r llyfrau gwaith cartref yn rheolaidd.
- **System Show My Homework / ClassCharts**

  Mi fydd tasgau gwaith cartref hefyd yn cael ei nodi lawr ar system gyfrifiadurol ar y we fydd yn caniatáu disgyblion a rhieni i gael manylion llawn o unrhyw dasgau gwaith cartref, gan gynnwys dyddiad cwblhau ac unrhyw adnoddau perthnasol i'r dasg megis taflenni gwaith.
- **Amser a dreulir ar waith cartref: :** Disgwylir y bydd disgyblion Blwyddyn 7+8 fel arfer yn treulio lleiafswm o 1 awr pob nos o`r wythnos yn gwneud gwaith cartref - tua 8-11 awr yr wythnos. Fel arfer, disgwylir i ddisgyblion Blwyddyn 9 dreulio o leiaf awr a hanner pob nos o`r wythnos yn gwneud gwaith cartref - tua 12 awr yr wythnos. Bydd gwaith cartref disgyblion Blwyddyn 10 +11 yn fwy amrywiol ei hyd ac yn dibynnu ar natur cyrsiau yn ogystal â natur y gwaith a wneir ar unrhyw un adeg. Mae`n bwysig fod disgyblion y setiau canol yn derbyn yr un pwysau

gwaith o safbwynt gwaith cartref â disgyblion y setiau cyntaf. Yn yr un modd, dylid sicrhau fod pwysau gwaith cartref yn cynyddu ym Mlwyddyn 8 a 9.

- Ni fydd yr ysgol yn rhoi tasgau gwaith Cartref am bythefnos cyntaf bl. 7 er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cael cyfle i setlo yn yr ysgol.
- Ni fydd gwaith cartref yn cael ei gosod i ddisgyblion Blwyddyn 10 a 11 yn yr wythnos yn arwain at arholiadau mewnol / allanol er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i baratoi at arholiadau.
- Disgwylir i athrawon roi o leiaf 2 noson o rybudd i ddisgyblion wneud gwaith cartref er mwyn hwyluso trefniadau i ddisgyblion sy'n gwneud llawer o bethau yn gymunedol ac o safbwynt diddordebau y tu allan i oriau ysgol.
- Rhoddir gwybodaeth yn amlinellu`r drefn gwaith cartref i rieni.
- Disgwylir i adrannau ddarparu cydbwysedd ac amrywiaeth eang o waith cartref megis:
    - cwblhau gwaith a ddechreuwyd yn y gwersi (dosbarth cyfan <u>nid</u> unigolion),
    - cwblhau gwaith y paratowyd ar ei gyfer yn y gwersi,
    - gwaith dysgu ar y cof,
    - gwaith adolygu ar gyfer prawf / arholiad,
    - gwaith ymestynnol,
    - gwaith cadarnhau,
    - gwaith ysgrifennu,
    - gwaith darllen estynedig,
    - Gwaith darllen estynedig.
    - Gwaith ymchwiliol trwy ddefnyddio llyfrgell leol.
    - Gwaith ymchwiliol trwy ddefnyddio`r wê,
    - Prosiect yn paratoi ar gyfer yr uned nesaf o waith,
    - Gwaith meistroli sgiliau sylfaenol e.e. ymarfer darllen yn uchel, sillafu, tablau a.y.y.b.
    - Gwaith sy`n cynnwys rhieni yn y broses.

- Cefnogaeth ac anogaeth i ddisgyblion gyda Gwaith Cartref:
    - Darperir cefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd ddim yn cwblhau gwaith cartref yn foddhaol trwy drefnu iddynt gwblhau gwaith cartref yn ystod cyfnodau Clwb Gwaith Cartref. Os nad yw plentyn yn cwblhau gwaith cartref, cyfrifoldeb athro yw cyfeirio plentyn i sylw Pennaeth Adran yn gyntaf ac yna Pennaeth Blwyddyn er mwyn trefnu i`r plentyn hwnnw fynychu'r Clwb Gwaith Cartref yn rheolaidd.
    - Mi fydd y clwb gwaith cartref yn y Ganolfan adnoddau yn yr Ysgol o 14.30 tan 16.10 nos Lun i nos Iau. Mi fydd aelod o staff ychwanegol ar gael yn y clwb Gwaith Cartref ar Nos Iau.
    - Gwobrwyir disgyblion am wneud gwaith cartref da a phrydlon trwy bwyntiau gwobrwyo yn SIMS.
    - Cosbir disgyblion sydd ddim yn cwblhau gwaith cartref yn foddhaol a phrydlon trwy osod gwaith ychwanegol yn ystod cyfnodau cinio.
- Bydd athrawon pwnc a thiwtoriaid yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith cartref yn gyson.
- Rhoddir hyfforddiant ar agweddau yn ymwneud â sgiliau dysgu megis: cwblhau gwaith cartref; rheoli amser a chynllunio adolygu o fewn Sgiliau Dysgu mewn gwersi ABaCh.
- Sicrheir bod rhieni mewn sefyllfa i gefnogi ac estyn cymorth i`w disgyblion drwy roi braslun iddynt o ddisgwyliadau`r ysgol ar ddechrau pob blwyddyn. Estynir cymorth i rieni Di-Gymraeg gefnogi gwaith cyfrwng Cymraeg eu plant drwy ddarparu deunydd cyfatebol Saesneg ar eu cyfer.
- Dylid cyfeirio'n amlwg at ddarpariaeth a thasgau gwaith cartref o fewn y cynllun gwaith.

Ysgol ardudwy

**Atodiad 1**

**Arfer dda**

Trefn
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y wers
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gofnodi yn llyfr cyswllt y dysgwr a Show My Homework/ClassCharts
- ✓ Cofnodi’r gwaith cartref ar y bwrdd gwyn i gynorthwyo dysgwyr ADY
- ✓ Sicrhau fod pawb yn deall y gwaith cartref
- ✓ Gwaith cartref wedi ei nodi i lawr yng nghynlluniau gwaith yr adran.
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei osod ar yr un diwrnod bob wythnos (pan fo hynny’n bosib o fewn y pwnc)
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei weld a’i lofnodi gan riant / gwarcheidwad
- ✓ Gwaith Cartref yn cael ei gasglu ar yr un diwrnod bob wythnos (pan fo hynny’n bosib o fewn y pwnc)
- ✓ Sylwadau cadarnhaol wrth adrodd yn ôl ar y gwaith cartref, ac unrhyw gywiro yn unol â’r Polisi Marcio ysgol gyfan
- ✓ Graddio/marcio’r gwaith cartref yn unol â pholisi asesu adrannol, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y pwnc
- ✓ Athro/Athrawes Pwnc i gofnodi gwaith cartref wedi ei dderbyn a heb ei dderbyn
- ✓ Dysgwyr yn cael eu gwobrwyo / canmol am safon uchel gyson o waith cartref.
- ✓ Dysgwyr yn cael eu gwobrwyo / canmol am ymdrech gyson a ddangosir wrth gwblhau gwaith cartref.

Methodoleg
- ✓ Gwaith Cartref yn elfen gynlluniedig o'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy’n ystyried gwahanol arddulliau o ddysgu dysgwyr unigol
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy’n cymryd i ystyriaeth ystod gallu'r dysgwyr
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy’n ystyried yr amrywiaeth yn yr adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr
- ✓ Tasgau gwaith cartref amrywiol
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy’n herio
- ✓ Tasgau gwaith cartref sydd yn ddiddorol.

Gwaith Cartref ar gyfer y Dysgwr/Dysgwyr Mwy Galluog
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn benagored ac yn hybu dychymyg a chreadigrwydd
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn seiliedig ar ymchwil a hyrwyddo sgiliau ymholi
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn cynnwys sgiliau ymchwiliol
- ✓ Tasgau gwaith cartref tymor hir, yn seiliedig ar brosiectau
- ✓ Tasgau gwaith cartref yn hyrwyddo hunanwerthuso
- ✓ Tasgau gwaith cartref sy’n cynnwys cydweithio gyda chyfoedion, rhieni a'r gymuned ehangach
- ✓ Gwaith cartref yn cael eu monitro'n agos gan athro/athrawes pynciol.

Ysgol ardudwy

**Atodiad 2**

## Amlder Gwaith Cartref

Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau na fydd y dysgwyr yn derbyn mwy o waith cartref na'r hyn sy'n ddisgwyliedig iddynt ei gwblhau, sef:

| | |
|---|---|
| Blynyddoedd 7 ac 8: | 45 - 60 munud y diwrnod. |
| Blwyddyn 9: | 45 - 75 munud y diwrnod. |
| Blynyddoedd 10 ac 11: | 60 - 90 munud y diwrnod. |

Er mwyn ceisio sicrhau hyn, gofynnir i adrannau beidio gosod gwaith cartref yn amlach nag unwaith bob tair gwers i ddysgwr CA3. Dylid nodi hefyd **nad oes** disgwyl i adrannau osod gwaith bob tair gwers. Yn hytrach, dylid sicrhau fod y gwaith cartref yn cael ei osod er mwyn cyfrannu at addysg a chynnydd y dysgwyr, yn hytrach nag er mwyn 'gosod gwaith cartref' yn unig.

Er enghraifft :

Pynciau Craidd – unwaith yr wythnos

Pynciau Anghraidd – unwaith pob pythefnos/tair wythnos

Dylid nodi hefyd fod y cynllun i annog darllen Accelerated Reader a chynllun Darllen yn Gymraeg yn waith cartref parhaus i ddysgwyr CA3.